

Llyfryn Canllaw: Gwneud Cais o dan Ddeddf Draenio Tir 1991

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.



Ffôn:
0300 025 9809

Ffacs:
0300 025 9801



E-bost:
[AgriculturalLand
TribunaWales@l
lyw.cymru](mailto:AgriculturalLandTribunaWales@llyw.cymru)



Gwefan
tta.llyw.cymru



Post:
Tribiwnlys Tir
Amaethyddol Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys LD1 5HA

Cynnwys

Adran 1	Cyflwyniad	3
Adran 2	Beth yw Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru?	4
Adran 3	Gwneud cais: Cyffredinol	5
Adran 4	Gwrandawriad y Tribiwnlys	8
Adran 5	Penderfyniad y Tribiwnlys	11
Adran 6	Draenio Tir	12

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y canllawiau canlynol cyn llenwi unrhyw ffurflen gais.

Noder mai darparu canllawiau cyffredinol yn unig yw nod y llyfryn hwn. Ni fydd yn cymryd lle'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli ceisiadau i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru na chyngor proffesiynol a roddir yng ngoleuni amgylchiadau personol.

Mae'n hanfodol bod unrhyw un sy'n gwneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol (TTA) neu sy'n rhan o achos TTA yn ymgyswngwyo â'r ddeddfwriaeth berthnasol neu'n gofyn am gyngor proffesiynol.

Dylech gysylltu â'r TTA os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i wneud cais neu os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw ran o'r broses. Fodd bynnag, ni allwn roi cyngor cyfreithiol na'ch helpu i wneud cais neu ymateb i gais.

Beth yw Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (TTA Cymru) yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatrys anghydfodau yn ymwneud â draenio tir amaethyddol o dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Mae TTA Cymru hefyd yn datrys anghydfodau a phroblemau eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol sy'n codi o gytundebau tenantiaeth o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Gweler Canllawiau-01: Gwneud Cais o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

Corff statudol annibynnol ag awdurdodaeth dros ardal ddaearyddol Cymru yw TTA Cymru.

Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac Aelodau Lleyg. Gwneir y penodiadau hyn ar ôl hysbysebu'r swyddi gwag ac yn dilyn cyfweiliad cystadleuol gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Cadeirydd	Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am weinyddiaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.
Aelodau Lleyg	Mae gan Aelodau Lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad perthnasol y maent yn eu cyfrannu at bob Gwrandawriad. Maent yn eistedd ar y Paneli Draenio Tir, Ffermwyr neu Dirfeddianwyr.
Ysgrifennydd	Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith gweinyddu o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r Ysgrifennydd, sy'n ymdrin â'r holl waith papur cychwynnol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifennydd yn ymgynghori â'r Cadeirydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi cyn y gwrandawriad ac yn anfon dyfarniadau a chyfarwyddiadau'r Cadeirydd yn ysgrifenedig at y partïon. Yr Ysgrifennydd yw'r pwynt cyswllt ar gyfer y Cadeirydd, Aelodau a phartïon, ac mae'n mynd i Wrandawiadau i sicrhau bod yr achosion yn rhedeg yn esmwyth.

Gwneud Cais: Cyffredinol

Pryd allaf i wneud cais i'r Tribiwnlys?

Gallwch wneud cais i'r Tribiwnlys o dan Ddeddf Draenio Tir 1991 unrhyw bryd.

Sut ydw i'n gwneud cais i'r Tribiwnlys?

Er mwyn gwneud cais, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais berthnasol a'i hanfon i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Gallwch anfon eich cais drwy'r post, ffacs neu e-bost. Mae manylion cyswllt ar flaen y llyfryn canllaw hwn.

Gallwch lawrlwytho ffurflenni cais a llyfrynnau canllaw o wefan y Tribiwnlys. Fel arall, os hoffech i ni anfon ffurflen gais neu lyfryn canllaw atoch, cysylltwch â swyddfa'r Tribiwnlys.

Beth sydd angen i mi ei ddweud wrthy/chi ei anfon i'r Tribiwnlys?

- 2 gopi o'r ffurflen gais
- 2 gopi o fap (os oes modd, dylai fod ar raddfa o 1/10,000 neu fwy)

Mae gan Gadeirydd y Tribiwnlys y grym ym mhob achos i hepgor mapiau ac ati (e.e. os ydynt eisoes ym meddiant y Tribiwnlys). Dylid gwneud cais ysgrifenedig am gyfarwyddyd ar y pwnc hwn cyn neu wrth anfon y cais.

Mae'r adrannau canllawiau penodol yn y llyfryn hwn yn disgrifio'r wybodaeth a'r dogfennau ychwanegol y dylai ymgeiswyr eu hanfon gyda'u cais. Gall methu â chynnwys gwybodaeth a dogfennau o'r fath ohirio'r achos. Os oes gennych chi wybodaeth neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich cais, dylech ei chynnwys wrth anfon eich cais.

A oes rhaid i mi dalu ffi i'r Tribiwnlys?

Nid oes rhaid i chi dalu ffi am wneud cais i'r Tribiwnlys. Rhaid i bartïon dalu unrhyw gostau sy'n codi o ganlyniad i wneud cais e.e. costau teithio i'r Gwrandawriad.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Tribiwnlys dderbyn fy nghais?

Bydd y Tribiwnlys yn cadarnhau ei fod wedi derbyn eich cais. Bydd y Tribiwnlys yn cofrestru eich achos o fewn 10 diwrnod gwaith neu'n ysgrifennu atoch i ofyn am fwy o wybodaeth. Ar ôl i'ch achos gael ei gofrestru, anfonir copi o'r cais at y parti a enwir fel yr Ymatebydd.

Beth os oes gen i anghenion ychwanegol?

Gofalwch eich bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw anghenion ychwanegol sydd gennych wrth anfon eich cais atom. Er enghraifft, dylech ddweud os ydych chi angen arwyddwr neu

gyfieithydd yn y gwrandawriad neu os oes angen unrhyw drefniadau ychwanegol fel y gallwch chi ddod i'r gwrandawriad.

A allaf i anfon cais i'r Tribiwnlys mewn e-bost?

Nid yw Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn derbyn ceisiadau na gohebiaeth drwy e-bost.

A oes rhaid i mi anfon dogfennau gwreiddiol gyda'r cais?

Nid oes rhaid i chi anfon dogfennau gwreiddiol. Yn y lle cyntaf, darparwch lungopïau. Os bydd Gwrandawriad, efallai y gofynnir i chi ddarparu'r dogfennau gwreiddiol.

A all fy nghynrychiolydd anfon a derbyn dogfennau ar fy rhan?

Gall eich cynrychiolydd anfon y cais ac unrhyw wybodaeth ar eich rhan. Os yw'r ffurflen gais wedi'i llofnodi gan unrhyw un heblaw'r ymgeisydd, dylai'r unigolyn hwnnw nodi ym mha rinwedd neu o dan ba awdurdod y mae wedi gwneud hynny. Dylid cynnwys copi o'r awdurdod ysgrifenedig gyda'r cais.

A all y Tribiwnlys argymell unrhyw gynrychiolwyr i'm helpu gyda'm cais?

Fel Corff Barnwrol, ni all y Tribiwnlys argymell cynrychiolwyr na rhoi cyngor ar geisiadau.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn dewis tynnu fy nghais yn ôl?

Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd dynnu cais yn ôl unrhyw bryd. Dylid hysbysu'r Tribiwnlys yn ysgrifenedig.

Beth fydd yr Ymatebydd yn ei wneud gyda'm cais?

Ar ôl i'ch cais gael ei anfon ymlaen at y parti a enwir fel yr Ymatebydd, bydd rhaid iddo ymateb o fewn cyfnod penodol. Caiff copi o unrhyw ymatebion a dderbynnir ei anfon atoch.

Oni bai bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl neu ei ddatrys trwy gytundeb, bydd y mater yn mynd ymlaen i Wrandawriad lle bydd y Tribiwnlys yn gwneud penderfyniad.

A oes yna derfynau amser ar gyfer ymateb i'r Tribiwnlys?

Cewch wybod am unrhyw derfynau amser ar gyfer ymateb i'r Tribiwnlys. Gall y terfynau amser hyn gael eu hymestyn, ond dim ond os bydd Cadeirydd y Tribiwnlys o'r farn bod yna resymau da dros wneud hynny. Mae Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007 yn esbonio canlyniadau methu ag ymateb i Tribiwnlys o fewn yr amser a ganiateir gan y rheolau.

A fydd fy nghais yn cael ei gadw'n gyfrinachol?

Dim ond y bobl sy'n rhan o'r achos fydd yn cael gweld y wybodaeth a ddarperir i'r Tribiwnlys mewn cysylltiad â chais. Fodd bynnag, mae Gwrandawriadau'n cael eu cynnal yn gyhoeddus. Pan fydd achos yn mynd ymlaen i Wrandawriad ffurfiol, bydd yr holl wybodaeth a ddarparwyd gan unrhyw barti yn dod yn wybodaeth gyhoeddus oni bai bod yna resymau eithriadol sy'n golygu y byddai'n well i'r achos gael ei gynnal yn breifat.

Sut bydd dogfennau'n cael eu hanfon ataf?

Caiff yr holl ddogfennau gweithdrefnol eu hanfon atoch trwy wasanaeth Dosbarthiad a Gofnodwyd neu Ddosbarthiad Arbennig y Post Brenhinol.

A all y Tribiwnlys roi cyngor i mi?

Corff Barnwrol annibynnol yw'r Tribiwnlys, felly mae'n rhaid iddo fod yn ddiuedd wrth fynd i'r afael ag anghydfodau. Gall ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys ddarparu cyngor ar weithdrefnau'r Tribiwnlys; er hynny, ni all y Tribiwnlys ddarparu canllawiau neu gyngor cyfreithiol ar sut i gyflwyno achos.

Beth os bydd rhan o'm tir yng Nghymru a rhan arall yn Lloegr?

Os bydd rhan o'ch tir yng Nghymru a rhan arall yn Lloegr, y Tribiwnlys ar gyfer yr ardal lle mae'r rhan fwyaf o'ch tir fydd yn ystyried y cais.

Faint o amser ar ôl i'r Tribiwnlys dderbyn cais y mae'n cyhoeddi penderfyniad?

Bydd yr amserlen yn amrywio yn dibynnu ar y math o achos ond mae'r Tribiwnlys wastad yn gwneud ei orau glas i fynd i'r afael â cheisiadau yn brydlon.

Gwrandawiad y Tribiwnlys

A fydd Gwrandawiad?

Ni fydd gwneud cais i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn arwain at Wrandawiad o reidrwydd. Mae llawer o achosion yn cael eu datrys rhwng y partïon heb yr angen am Wrandawiad.

Pryd fyddwch chi'n rhoi gwybod i mi am ddyddiad y Gwrandawiad?

Y Tribiwnlys fydd yn rhoi gwybod i bartïon am ddyddiad, amser a lleoliad y Gwrandawiad. Bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i bartïon o leiaf 14 diwrnod cyn y Gwrandawiad.

Ble fydd y Gwrandawiad?

Cynhelir Gwrandawiadau mewn lleoliad addas heb fod ymhell o'r tir dan sylw.

Pryd fydd y Gwrandawiad?

Cynhelir y Gwrandawiad ar ddyddiad sy'n gyfleus i bob parti ac i'r Tribiwnlys.

Faint o'r gloch fydd y Gwrandawiad yn dechrau ac am faint y bydd yn para?

Mae Gwrandawiadau'n dechrau am 10:00am fel arfer. Maent yn para drwy'r dydd gan amlaf, ond byddant wedi gorffen erbyn 5:00pm fel rheol. Bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i chi sawl diwrnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer eich Gwrandawiad.

Pwy fydd yn y Gwrandawiad?

Mae Gwrandawiadau'n agored i'r cyhoedd ond, fel arfer, dim ond y Partïon, y Tribiwnlys a'i Glerc fydd yn bresennol. Gall y Tribiwnlys fynnu bod unrhyw un sydd wedi gwneud datganiad tyst, affidafid neu adroddiad arbenigol yn bresennol yn y Gwrandawiad.

Beth fydd yn digwydd yn y Gwrandawiad?

Bydd y Tribiwnlys yn esbonio'r weithdrefn ar y dydd ond bydd y ddau barti'n cael digon o gyfle i gyflwyno eu hachos i'r Tribiwnlys a gofyn cwestiynau. Bydd Aelodau'r Tribiwnlys hefyd yn gofyn cwestiynau er mwyn iddynt ddod i benderfyniad.

A oes rhaid i mi ddod i'r Gwrandawiad?

Byddai'n dda o beth i chi ddod i'r gwrandawiad fel y gall y Tribiwnlys glywed yr hyn sydd gennych chi i'w ddweud am y cais. Efallai y bydd y Tribiwnlys am ofyn cwestiynau i chi. Efallai yr hoffech chi ofyn cwestiynau hefyd.

A oes angen i mi gael cynrychiolaeth gyfreithiol?

Nid oes angen i chi gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

Os na fydd partïon yn cael eu cynrychioli, bydd y Cadeirydd yn esbonio'r materion yn yr achos a gweithdrefnau'r Tribiwnlys. Fodd bynnag, ni all y Tribiwnlys gynghori partïon ynglŷn â rhinweddau eu hachos na sut i weithredu.

A allaf i ddod â rhywun gyda mi i'r Gwrandawiad?

Mae Gwrandawiadau'r Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd, felly gall unrhyw un fod yn bresennol. Ni chaniateir i dystion roi tystiolaeth mewn achos oni bai bod y Tribiwnlys wedi derbyn hysbysiad ffurfiol a bod datganiad tyst wedi'i ddarparu.

A allaf i ofyn i rywun siarad ar fy rhan?

Mae angen i chi ysgrifennu i'r Tribiwnlys i'w hysbysu am eich bwriad a darparu enw a chyfeiriad y sawl a fydd yn dod i siarad ar eich rhan. Bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i'r partïon eraill am eich bwriad.

Beth os byddaf i angen mwy o amser cyn y Gwrandawriad i gyflwyno tystiolaeth?

O dan rai amgylchiadau, gall y Tribiwnlys gytuno i ohirio Gwrandawriad. Fodd bynnag, bydd angen argyhoeddi'r Tribiwnlys bod modd cyfiawnhau hynny. Bydd angen i chi gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn nodi eich bod am i'r Gwrandawriad gael ei ohirio a'r rhesymau dros hynny.

Pam mae'n rhaid i mi lenwi ffurflen bresenoldeb?

Rhaid i bob parti roi gwybod i'r Tribiwnlys a yw'n bwriadu bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y Gwrandawriad. Rhaid i'r partïon nodi hefyd a ydynt yn bwriadu dod ag unrhyw dystion gyda nhw.

Os byddwch chi'n gwneud unrhyw newidiadau i'r bobl a restrir ar eich ffurflen bresenoldeb, dylech roi gwybod i'r Tribiwnlys yn syth.

A allaf i hawlio treuliau?

Ni all y Tribiwnlys dalu treuliau.

A allaf i neu fy nghynrychiolydd/tystion gyflwyno tystiolaeth yn y Gymraeg?

Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal a gellir cyflwyno tystiolaeth yn y naill iaith neu'r llall.

Os ydych chi neu'ch cynrychiolydd/tystion am gyflwyno tystiolaeth yn y Gymraeg, dylech roi gwybod i'r Tribiwnlys cyn y Gwrandawriad er mwyn iddo drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

A fydd y Gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat?

Bydd pob Gwrandawriad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus oni bai bod yna resymau eithriadol dros gynnal y Gwrandawriad yn breifat. Os hoffech i'r Gwrandawriad gael ei gynnal yn breifat, rhaid i chi ysgrifennu i'r Tribiwnlys, gan nodi'r rhesymau llawn dros eich cais.

Sut cyflwynir tystiolaeth mewn Gwrandawriad?

Fel arfer, cyflwynir tystiolaeth ar lw neu gadarnhad. Gall partïon gyflwyno tystiolaeth, galw tystion, holi tystion ac annerch y Tribiwnlys.

Beth yw ymweliad safle?

Ystyr ymweliad safle yw archwiliad o'r tir y mae'r cais yn berthnasol iddo. Gall y Tribiwnlys archwilio'r adeiladau, y tir ac unrhyw dda byw, cyfarpar a chynnyrch.

A allaf i ddweud unrhyw beth wrth banel y Tribiwnlys yn ystod yr ymweliad safle?

Gall y ddau barti dynnu sylw at unrhyw elfen ffisegol o'r eiddo y maent am i'r Tribiwnlys ei gweld. Fodd bynnag, ni all partïon wneud unrhyw sylwadau yn ystod yr archwiliad. Dim ond yn y Gwrandawriad y mae modd gwneud sylwadau, a hynny ar lafar neu ar bapur.

Ym mha fathau o achosion y mae angen i'r Tribiwnlys gynnal archwiliad o'r safle?

Bydd angen i'r Tribiwnlys gynnal archwiliad ar gyfer bron pob achos.

Faint o rybudd fydd y Tribiwnlys yn ei roi cyn cynnal archwiliad?

Bydd y Tribiwnlys yn rhoi o leiaf 24 awr (neu 7 diwrnod mewn achosion draenio tir) o rybudd cyn cynnal unrhyw ymweliad safle.

Pryd y cynhelir yr ymweliad safle?

Bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i bartion yn y Gwrandawriad pryd y cynhelir yr ymweliad safle. Fel arfer, cynhelir ymweliadau safle cyn cyflwyno tystiolaeth.

Pa drefniadau bioddiogelwch fydd ar waith yn ystod yr ymweliad safle?

Mae'r Tribiwnlys yn dilyn canllawiau bioddiogelwch Llywodraeth Cymru. Disgwylir i bawb ddiheintio ei esgidiau.

Penderfyniad y Tribiwnlys

Sut mae'r Tribiwnlys yn gwneud ei benderfyniad?

Bydd y Tribiwnlys yn ystyried yr holl dystiolaeth er mwyn gwneud ei benderfyniad. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys y dogfennau y mae pob parti'n eu hanfon cyn y Gwrandawriad a'r hyn a ddywedir yn y Gwrandawriad.

Faint o amser mae'r Tribiwnlys yn ei gymryd i gyhoeddi ei benderfyniad?

Fel arfer, bydd y Tribiwnlys yn cyhoeddi ei benderfyniad o fewn 30 diwrnod gwaith i'r Gwrandawriad.

A allaf i ofyn am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys?

Os credwch fod yna broblem dechnegol gyda'r penderfyniad a sut y cafodd ei wneud, gallwch ofyn i'r Tribiwnlys adolygu'r penderfyniad. Ni fydd y Tribiwnlys yn adolygu ei benderfyniad os ydych yn anfodlon â'r penderfyniad.

Beth os oes yna gamgymeriadau gweinyddol yn fy mhenderfyniad?

Mae gan y Tribiwnlys y grym i gyflwyno tystysgrifau cywiro i gywiro unrhyw gamgymeriad neu hepgoriad clercol neu ddamweiniol mewn penderfyniad. Bydd angen i chi wneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys.

Beth os byddaf i'n anghytuno â phenderfyniad y Tribiwnlys?

Gallwch apelio i'r Uwch Tribiwnlys ar bwynt cyfreithiol. Yn gyntaf, rhaid i chi gael caniatâd i apelio gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y llyfryn canllaw i gael gwybodaeth am derfynau amser.

A allaf i weld penderfyniadau'r gorffennol?

Gallwch. Bydd penderfyniadau'r Tribiwnlys ar gael yn swyddfa'r Tribiwnlys neu ar y wefan.

Faint o amser sydd gan yr Ymatebydd i gyflawni Gorchymyn Tribiwnlys?

Bydd y Gorchymyn Tribiwnlys yn nodi erbyn pryd y dylid cyflawni'r Gorchymyn.

Darpariaethau Statudol

Mae adrannau 28-31 o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn darparu ateb i berchnogion a meddianwyr tir sydd wedi cael ei ddifetha neu nad oes modd ei wella trwy ddraenio oherwydd bod cymydog yn esgeuluso'i ffosydd yntau.

Os honnir bod tir yn cael ei ddifetha, neu nad oes modd gwella draeniad tir gan fod cymydog neu unigolyn arall yn esgeuluso ei ffosydd, gall perchennog neu feddiannydd y tir dan sylw ofyn i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru wneud Gorchymyn yn nodi'r gwaith draenio y dylid ei gyflawni.

Gall perchennog neu feddiannydd hefyd gael gorchymyn gan y Tribiwnlys a fydd yn ei awdurdodi ef, neu gontractwr a gyflogir ganddo, i gyflawni gwaith ffosydd ar dir cyfagos sydd ym meddiant unigolyn arall.

Ni all y Tribiwnlys wneud Gorchymyn os yw'r ffos yn gwrs dŵr sydd ym meddiant neu o dan reolaeth corff draenio; mae cyrsiau dŵr o'r fath y tu allan i awdurdodaeth y Tribiwnlys Tir Amaethyddol.

Gorchymyn Tribiwnlys

Ar ôl ystyried barn pob parti, gall y Tribiwnlys fynd ati, gyda neu heb Wrandawriad ffurfiol (yn dibynnu ar faint o gydsyniad a geir i unrhyw argymhelliad yn yr adroddiad), i wneud Gorchymyn i gyflawni gwaith adfer penodol. Bydd y Gorchymyn yn enwi'r unigolyn neu'r unigolion ddylai gyflawni'r gwaith ac yn darparu unrhyw bwerau mynediad angenrheidiol at y diben hwnnw.

Pwy y gellir eu henwi yn y Gorchymyn?

Perchennog neu feddiannydd tir y mae'r ffos yn llifo drwyddi, neu sy'n ffinio â'r ffos, neu unrhyw unigolyn arall â hawl i gyflawni gwaith ar y tir hwnnw. Os bydd y Tribiwnlys yn dod i'r casgliad bod gan fwy nag un unigolyn hawl o'r fath, gall wneud un gorchymyn iddynt gyflawni'r gwaith ar y cyd, a gall ddweud pa waith y bydd pob parti'n ei wneud a pha gyfran o'r gost y bydd rhaid i bob parti ei thalu. Fel arall, gellir gwneud gorchymynion ar wahân.

Cael mynediad i dir cymydog i gyflawni gwaith draenio

Rhaid i unigolyn a awdurdodwyd gan y Tribiwnlys i gael mynediad i dir i gyflawni gwaith ar ffosydd roi o leiaf 7 diwrnod o rybudd. Os bydd angen, gall fynd â phobl eraill a chyfarpar gydag ef. Yr unigolyn hwn fydd yn gyfrifol am unrhyw anaf a geir o ganlyniad i gael mynediad i'r tir ac, os na ellir cytuno ar gyfanswm yr iawndal i'w dalu, bydd y Tribiwnlys yn penderfynu arno. Os nad yw'r tir wedi'i feddiannu, dylai'r unigolyn sy'n cael mynediad sicrhau wrth adael ei fod yr un mor ddiogel rhag tresmaswyr ag ydoedd pan gafodd fynediad i'r tir.

Methu â chydymffurfio â Gorchymyn Tribiwnlys

Os na fydd unrhyw waith a orchynnwyd gan y Tribiwnlys wedi'i gyflawni o fewn tri mis neu unrhyw gyfnod hirach a ganiatawyd gan y Tribiwnlys, gall Llywodraeth Cymru drefnu i'r gwaith gael ei gyflawni. Caiff costau'r gwaith eu hadennill gan y sawl y nodwyd yn y Gorchymyn mai ef oedd yn gyfrifol am y gwaith.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n trefnu i'r gwaith gael ei gyflawni yn y modd hwn, ni fydd unrhyw grant y gallai'r gwaith fod yn gymwys amdano fel arall yn daladwy.

I gael manylion cyswllt Llywodraeth Cymru, cysylltwch â'r Tribiwnlys.

Aelodau a grym y Tribiwnlys

Os bydd y Tribiwnlys yn archwilio ceisiadau o dan y darpariaethau hyn, bydd yn cynnwys unigolyn â phrofiad ym maes draenio tir. Mae gan y Tribiwnlys y grym i awdurdodi ei aelodau neu unigolion eraill i gael mynediad i dir ac archwilio tir sy'n destun cais.